
FARMING connect cyswllt FFERMIO

DOSBARTHIADAU MEISTR MASTER CLASSES

# MEISTR CLOFFNI

**Cyn y cyfarfod, pa mor hyderus oeddech chi gyda'ch protocol ar y fferm ar gyfer y pwyntiau isod? Rhowch smotyn ar bob rhif ym mhob categori a chysylltu'r dotiau i wneud diagram corryn.**




Wrth ystyried eich diadell ar hyn o bryd, pa ganran o'ch diadell, yn eich barn chi, sy'n gloff? (ticiwch y blwch)

| | |
|---|---|
| Llai na 2% | |
| 2-5% | |
| 6-10% | |
| 11-15% | |
| 16-20% | |
| Dros 20% | |

Pa mor hyderus ydych chi y gallwch reoli cloffni yn eich diadell? (Ticiwch y blwch)

| | |
|---|---|
| Hyderus iawn | |
| Eithaf hyderus | |
| Ychydig | |
| Ddim yn hyderus iawn | |
| Ddim yn hyderus o gwbl | |


Ar ôl y cyfarfod hwn, pa dri newid (os o gwbl) ydych chi'n mynd i'w rhoi ar waith ar eich fferm i helpu gyda chloffni?

1. ..........

2. ..........

3. ..........

**Ailymwelwch â'r ymarfer isod ymhen 6 mis i weld a oes unrhyw beth wedi newid gyda'ch protocol cloffni ar y fferm.**




### Pwyntiau i'w cofio

Tri phrif fath gwahanol o gloffni traed

- Sgald - croen y carn yn llidus, yn llaith ac wedi chwyddo
- Clwy'r traed – mae'n drewi ac yn dechrau fel sgald rhwng crafangau ac yn ymledu i wahaniad y corn ger y sawdl
- CODD - mae'n dechrau gydag ardal ddolurus yn y band coronaidd (brig y carnau) ac yn lledaenu i lawr y grafanc, ac mewn achosion difrifol mae'r capsiwl corn cyfan yn cael ei ddatgysylltu gan adael y grafanc yn amrwd ac yn agored.
- Mae mathau eraill o gloffni yn cynnwys crawniadau cymalau a gronyndyfiant, carnau cragennog a chlefyd llinell wen (crawniadau bysedd y traed)

### Cynllun cloffni pum pwynt

| Adeiladu gwytnwch | DIFA |
|---|---|
| • Difa'r rhai sy'n dioddef cloffni dro ar ôl tro | |
| **Her lleihau afiechyd** | **TRIN** |
| • Trin ar unwaith ar ôl gweld arwyddion o gloffni a marcio/tagio mamogiaid i weld a fu'r driniaeth yn llwyddiannus a rhoi triniaeth ddilynol os oes angen | |
| **Her lleihau afiechyd** | **CWARANTIN** |
| • Rhoi unrhyw stoc a brynwyd neu ddefaid sydd wedi bod i ffwrdd ar borfa gaeaf mewn cwarantin | |
| **Her lleihau afiechyd** | **OSGOI** |
| • Cadwch ardaloedd yn lân a golchwch/diheintiwch ardaloedd triniaeth os yw'n bosibl, i osgoi lledaenu'r bacteria, symudwch gafnau didol-borthi a bwcedi mwynau a defnyddiwch wellt glân a diheintiwch/ defnyddiwch galch yn y siediau. | |
| **Sefydlu imiwnedd** | **BRECHU** |
| • Siaradwch â'ch milfeddyg ynghylch cynllun brechu addas ar gyfer eich fferm | |


Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**


www.llyw.cymru/cyswlltffermio